# Ymgynghorydd Pwnc: Astudiaethau Cymdeithasol

## Cyflog: £43,947 – £47,712 y flwyddyn pro rata (Gradd 10)

## Contract: Rhan amser (18.25 oriau), tymor penodol o 01 Ionawr 2025 tan 31 Mai 2026

Mae CBAC yn falch o groesawu ceisiadau i Gynghorydd Pwnc Astudiaethau Cymdeithasol i ymuno â'n tîm pwnc.

Contract dros dro fydd hwn. Byddai'r rôl hon yn gyfle secondiad gwych i unigolion sy'n gweithio mewn addysg uwchradd/addysg bellach sydd am gael dealltwriaeth well o waith bwrdd arholi. Bydd yr Ymgynghorydd llwyddiannus yn cael digon o gyfle i ddatblygu a thyfu, gan feithrin sgiliau newydd i fynd yn ôl i'w hysgol/coleg gyda nhw.

**Y rôl:**
Mae gan Ymgynghorwyr Pynciau rôl hollbwysig yn ein timau sy'n ymdrin â'r pynciau. Nhw sy'n comisiynu ac yn sicrhau ansawdd Dysgu Proffesiynol i athrawon. Mae deiliaid y swydd hon yn ysgrifennu agweddau ar yr hyfforddiant yn ogystal ac yn ei gyflwyno mewn digwyddiadau. Hoffem recriwtio athro/athrawes sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i weithio'n rhan amser gyda ni. Cyfle hybrid yw'r rôl hon, sy'n golygu y bydd modd i staff rannu eu hamser rhwng ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a gartref.

Yn ystod cyfnod y contract hwn, bydd yr unigolyn llwyddiannus yn canolbwyntio'n bennaf ar lunio ein cyrsiau Datblygiad Proffesiynol gyda'r nod o gefnogi athrawon wrth iddyn nhw baratoi i addysgu ein TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, yn rhan o'r gefnogaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru. Y maes pwnc CBAC TGAU dan sylw yw: Astudiaethau Cymdeithasol.

**Yr unigolyn:**
Croesewir ceisiadau gan athrawon sydd â nifer o flynyddoedd o brofiad addysgu, yn enwedig mewn unrhyw bwnc yn y Dyniaethau neu'r Gwyddorau Cymdeithasol, yng Nghymru yn ddelfrydol. Byddwch chi'n ymarferwr sy'n myfyrio ynghylch addysgeg. Bydd gennych y gallu i lunio a chyflwyno Dysgu Proffesiynol perthnasol a deniadol i'ch cyfoedion ac yn ddelfrydol bydd gennych brofiad o arwain projectau.

Dylai ymgeiswyr fod yn hyblyg o ran gwaith ac ar gael i deithio o gwmpas Cymru yn mynychu ac yn hwyluso digwyddiadau Dysgu Proffesiynol, gan fod yn barod i weithio ar benwythnosau yn achlysurol. Mae medru'r Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y rolau hyn, ond nid yw'n hanfodol.

**Ein buddion:**
Mae CBAC yn gorff croesawgar a chefnogol, sy'n falch o gynnig amrediad eang o fuddion hael i'w gyflogeion gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (ynghyd ag 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol), cyfleoedd i hyfforddi a datblygu gan gynnwys cyrsiau dysgu Cymraeg am ddim, a naill ai'r cynllun pensiwn Llywodraeth Leol neu'r cynllun pensiwn Athrawon.

I gael gwybod mwy am y rôl, neu am weithio gyda ni, mae croeso i chi gysylltu â'n tîm Adnoddau Dynol (AD@cbac.co.uk). Byddant yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau.

**Ewch i'n gwefan i lawrlwytho copi o'r disgrifiad swydd a'r ffurflen gais.**

## Dyddiad cau: 09:00, dydd Llun 07 Hydref 2024

**Rhagwelir cynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, ar dydd Mercher 16 Hydref 2024.**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | **Ymgynghorydd Pwnc** |
| **Adran:** | Cymwysterau |
| **Isadran:** | Parthau |
| **Yn atebol i:** | Arweinydd y Parth |
| **Gradd:** | 10 |
| **Lleoliad:** | **Rhodfa'r Gorllewin** |

## Prif bwrpas y Swydd:

Bydd deiliad y swydd hon yn ymgymryd ag amrywiol ddyletswyddau strategol a gweithredol y mae angen sgiliau pwnc-benodol ac addysgu a dysgu ar eu cyfer, mewn perthynas â'r maes (meysydd) pwnc canlynol.

- i'w gytuno o'r rhestr flaenorol.

Yn aelod allweddol o dîm y pwnc, bydd deiliad y swydd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ac asesu cymwysterau, darpariaeth Dysgu Proffesiynol/DPP ynghyd ag adnoddau addysgu a dysgu o fewn eu maes (meysydd) pwnc. Byddant yn gweithredu fel llysgennad dros CBAC ac yn mynd ati'n rhagweithiol i farchnata'r pwnc gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.

Bydd deiliad y swydd hon mewn cysylltiad agos â'r Swyddog Pwnc, adrannau eraill a swyddogion cyswllt CBAC er mwyn darparu cymwysterau ac asesiadau yn effeithiol.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

### 1. Datblygiadau wedi'u Comisiynu (Cymwysterau, Adnoddau a Dysgu Proffesiynol (DP) / Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP))

- Chwarae rôl allweddol yn y gwaith o addasu a datblygu Manylebau CBAC; cydlynu cyfraniad penodedigion, grwpiau athrawon ac ymgynghorwyr a chysylltu â rhanddeiliaid ynghylch unrhyw newidiadau arfaethedig.
- Ar y cyd ag eraill, datblygu a chynnal dogfennau adnoddau addysgol a manylebau i gefnogi'r gwaith o addysgu a dysgu manylebau CBAC sy'n datblygu.
- Cysylltu ag awduron adnoddau o ran gofynion manyleb a monitro eu hallbynnau.
- Llunio a chyflwyno amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddiant Dysgu Proffesiynol / DPP o safon, yn bersonol ac o bell; gweithredu fel llysgennad dros CBAC / Eduqas a dirprwyo dros Swyddogion Pwnc, lle bo angen gwneud hynny.
- Adnabod, ymgysylltu a hyfforddi awduron a chyflwynwyr â'r cymwysterau addas i wella cyflwyniad DP/DPP o safon yn y maes (meysydd) pwnc
- Cydweithio â'r cynrychiolwyr rhanbarthol ac ymweld â chanolfannau yn y maes (meysydd) pwnc; helpu i hyrwyddo cymwysterau CBAC/Eduqas i staff addysgu.

## 2. Gwasanaeth Asesu

- Adnabod ac ymgysylltu 'Penodedigion' cymwys (arholwyr/cymedrolwyr cynorthwyol), cefnogi eu hyfforddiant a datblygiad a sicrhau y cedwir at ofynion ein manylebau.
- Chwarae rôl allweddol wrth gefnogi unedau Arholiad ac Asesiad Di-arholiad. Gallai'r tasgau gynnwys:
    - hyfforddi a chefnogi Penodedigion
    - sicrhau bod cynlluniau marcio yn fanwl gywir a chyfoes
    - monitro marcio ar bapur a thros amrywiol lwyfannau ar-lein (e.e. Surpass)
    - cynghori ac arwain canolfannau ynghylch addasrwydd tasgau Asesu Di-arholiad
    - darparu deunydd enghreifftiol
- Cynorthwyo Swyddogion Pwnc â'r gwaith o addasu marciau canolfannau, dethol gwaith addas at ddibenion safoni a dyfarnu a dogfennaeth berthnasol arall.
- Arwain ar weithrediad Surpass ar gyfer pynciau penodol yn y Parth, lle y bo'n briodol, cynnig cyngor, arweiniad a deunyddiau hyfforddi i ganolfannau a phenodedigion.
- Golygu a/neu ddadansoddi adroddiadau amrywiol (er enghraifft, adroddiadau'r Uwch Arholwyr/Uwch Gymedrolwyr ac adroddiadau canolfannau), adnabod tueddiadau/patrymau yn y data a defnyddio'r rhain, lle y bo'n briodol, i helpu i lywio penderfyniadau ar lefel sefydliad.
- Cyfathrebu'n brydlon ac yn broffesiynol ag unigolion a chanolfannau am y Gwasanaeth Asesu; cysylltu ag adrannau eraill, pan fo gofyn, er mwyn ymateb yn drylwyr i unrhyw ymholiadau.
- Rheoli cymwysterau Llwybrau Mynediad o ddydd i ddydd; cymryd cyfrifoldeb am holl agweddau eu cyflwyno am gymeradwyaeth y Swyddog Pwnc neu Arweinydd y Parth, lle y bo'n briodol.

## 3. Hyrwyddo'r Pwnc a Chyfathrebu

- Mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo CBAC ac Eduqas fel corff dyfarnu, gan gynnwys darparu deunydd ar gyfer tudalennau'r pwnc perthnasol ar ein gwefannau a sicrhau ansawdd y deunydd hwnnw.
- Rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ac athrawon, ymateb i ymholiadau cymhleth am y pwnc a cheisiadau mwy syml am wybodaeth a deunyddiau ar gyfer y pwnc a gwneud hynny mewn ffordd gwrtais ac adeiladol.
- Cyfrannu at brojectau hyrwyddo'r pwnc gan gynnwys:
    - goruchwylio darpariaeth canllawiau ar gyfer cynhyrchion newydd (h.y. adnoddau a chymwysterau newydd)
    - cyfansoddi bwletinau a chylchlythyrau yn ymwneud â'r pwnc ar gyfer athrawon ac uwch aelodau o staff mewn canolfannau.
- Cynrychioli CBAC mewn cynadleddau ac arddangosfeydd pwnc-benodol.
- Trefnu a hwyluso'r broses o sicrhau ymrwymiad cyflwynwyr ar gyfer digwyddiadau'n ymwneud â phwnc.

## 4. Cyfrifoldebau Parth

- Cyfrannu at drafodaethau a chyfarfodydd grŵp fel aelod gweithgar o'r tîm yn y parthau; cynrychioli'r tîm mewn grwpiau llywio a chydweithio ar draws y sefydliad i gyflawni amcanion CBAC.
- Cadw at brosesau a gweithdrefnau CBAC, gan gynnwys diogelwch TG, Iechyd a Diogelwch, Y Gymraeg a Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Bod yn ymwybodol o ddatblygiadau cyfoes yn ymwneud â'r pwnc a chymwysterau; gwella sgiliau a gwybodaeth yn rheolaidd drwy ddilyn cyrsiau datblygiad proffesiynol.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill i gefnogi mentrau datblygiadol ac adrannol nad ydynt wedi'u cynnwys uchod ond sy'n gyson â'r rôl hon.

## Manyleb Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Ymgynghorydd Pwnc |
| **Adran:** | Parthau |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hynod Ddymunol**

- Sgiliau cyfathrebu da, gyda'r gallu i esbonio deunydd pwnc cymhleth i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Hyder wrth lunio a chyflwyno cyflwyniadau i gynulleidfaoedd mawr.
- Unigolyn sy'n gallu ysgogi ei hun i gynllunio a threfnu ei lwyth gwaith ei hun yn annibynnol i gwrdd â therfynau amser tynn.
- Gallu rhagorol i dalu sylw i'r manylion ac i gymhwyso hyn at dasgau fel prawfddarllen, archwilio data ac olrhain cynnydd tuag at derfynau amser gwaith.
- Llythrennedd cyfrifiadurol da, gan allu gwneud defnydd hyderus o Microsoft Office (yn benodol: Teams, Word, Excel a PowerPoint) a'r gallu i ddysgu am feddalwedd newydd/pwrpasol.

**Dymunol**

- Y gallu i gychwyn a chynnal perthnasoedd gweithio da â chysylltiadau y tu allan i'r tîm gwaith uniongyrchol.
- Sgiliau iaith Gymraeg

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth berthnasol a chyfredol am bynciau mewn maes pwnc cysylltiedig.

**Dymunol**

- Gwybodaeth am arholiadau TGAU a TAG a dulliau asesu di-arholiad.

## Profiad

**Hanfodol**

- TAR neu brofiad addysgu, yn y maes (meysydd) pwnc perthnasol yn ddelfrydol
- Profiad blaenorol o weithio mewn tîm, gweithio ar y cyd i sicrhau canlyniad, nod neu amcan ar y cyd.

**Hynod Ddymunol**

- Profiad o arwain project yn cynnwys adrannau/timau amryfal: gosod amserlenni'n annibynnol, dirprwyo gwaith a monitro cynnydd unigolion.
- Â'r gallu i wneud penderfyniadau'n hyderus, gyda phrofiad blaenorol yn gwneud neu'n dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio'n ganolig ar y busnes.

**Dymunol**

- Profiad blaenorol yn cefnogi'r broses asesu/arholi fel arholwr/cymedrolwr.
- Y gallu i drefnu digwyddiadau naill ai ar-lein neu'n bersonol.
- Profiad o gynhyrchu deunyddiau cyfarwyddyd i gynulleidfa eang.

## Hyfforddiant/Cymwysterau

**Hanfodol**

- Gradd neu gymhwyster/profiad cyfatebol mewn maes pwnc perthynol.

**Hynod Ddymunol**

- amh.

| **Arall** | |
|---|---|

**Hanfodol**

- Parodrwydd i fod yn hyblyg yn y gwaith ynghyd â'r gallu i deithio ledled y DU a gweithio gyda'r nos/ar benwythnosau yn achlysurol.

| Telerau ac Amodau Gwasanaeth | | Terms and Conditions of Service | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd / Job Title:** | Ymgynghorydd Pwnc / Subject Adviser | | |
| **Cyflog / Salary:** | £43,947 - £47,712 y flwyddyn pro rata / pro rata per annum | **Gradd / Grade:** | 10 |
| **Gwyliau Blynyddol / Annual Leave:** | 25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol / ychwanegol o wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.<br><br>25 Days per annum. In addition, WJEC currently allows 16 statutory / additional holidays. | | |
| **Pensiwn / Pension:** | Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol.<br><br>The provision of the Local Government Superannuation Act apply. | | |

| **Math o Gytundeb:** | **Contract Type:** | |
|---|---|---|
| ☐ Llawn amser / Full Time | | |
| ☐ Rhan amser / Part Time | **Nifer yr oriau'r wythnos**<br>**No. of hrs per week** | |
| ☐ Llawn amser Tymor Cyfyngedig / Full Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | |
| ☒ Rhan amser Tymor Cyfyngedig / Part Time Limited Term | **Diwedd y Tymor**<br>**End of Term** | 31/05/2026 |
| | **Nifer yr oriau'r wythnos**<br>**No. of hrs per week** | 18.25 |

| **Dull Ymgeisio:** | **Method of Application:** |
|---|---|

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at ad@cbac.co.uk erbyn **09:00, dydd Llun 07 Hydref 2024.**

Completed forms should be sent by email to hr@wjec.co.uk by **09:00, Monday 07 October 2024.**